# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych | Dyddiad: | 22 Mehefin, 2023 |
| | | Rhif Union: | 01824 712554 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYD-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH, DYDD GWENER, 30 MEHEFIN 2023** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 5 - 6)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu ragfarnol mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 PENODI CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y blynyddoedd dinesig 2023/24 a 2024/25.

*(Noder: Yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, bydd Cadeiryddiaeth y Pwyllgor yn newid bob dwy flynedd rhwng aelodau etholedig Cynghorau Sir Ddinbych a Chonwy bob yn ail. Felly bydd Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 a 2024/25 yn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).*

**4 PENODI ÎS-GADEIRYDD**

I ethol Îs-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y blynyddoedd dinesig 2023/24 a 2024/25.

*(Noder: Yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, bydd Îs-Gadeiryddiaeth y Pwyllgor yn newid bob dwy flynedd rhwng aelodau etholedig Cynghorau Sir Ddinbych a Chonwy bob yn ail. Felly bydd Îs-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 2024/25 yn Aelod o Gyngor Sir Ddinbych).*

**5 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

**6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 14)

I dderbyn cofnodion cyfarfod y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2022 (copi'n amgaeëdig).

**7 CYFRANIAD PARTNERIAID Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS (BGC) I WAITH Y BWRDD A BUDDION Y BWRDD I BARTNERIAID**

Trafod gyda chynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) gyfraniad y Bwrdd Iechyd i waith y BGC, ynghyd â'r manteision i'r Bwrdd Iechyd o fod yn bartner ar y BGC.

**8 COFRESTR RISG BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH** (Tudalennau 15 - 24)

Ystyried adroddiad gan Swyddogion Cefnogi y BGC (copi ynghlwm) sy'n hysbysu'r Pwyllgor o'r risgiau sy'n wynebu'r BGC a'r mesurau a gymerwyd i reoli a lliniaru'r risgiau hynny. Mae'r adroddiad hefyd yn gofyn am sylwadau'r aelodau ar y risgiau a nodwyd a'r mesurau lliniaru a weithredwyd.

**9 RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL** (Tudalennau 25 - 28)

I ystyried a derbyn blaenraglen waith arfaethedig y Pwyllgor (copi ynghlwm).

**EITEMAU ER GWYBODAETH**

**10 COFNODION CYFARFODYDD Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS** (Tudalennau 29 - 40)

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar:

(i) 26 Medi 2022
(ii) 30 Tachwedd 2022

## 11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH (Tudalennau 41 - 44)

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Cynghorydd Joan Butterfield
Cynghorydd Cheryl Carlisle
Cynghorydd David Carr
Cynghorydd Kelly Clewett
Cynghorydd Pauline Edwards
Cynghorydd Alan Hughes
Cynghorydd Paul Keddie
Cynghorydd Bernice McLoughlin
Cynghorydd Terry Mendies
Cynghorydd Angie O'Grady
Cynghorydd Stephen Price
Cynghorydd Kay Redhead
Cynghorydd Arwel Roberts
Cynghorydd Austin Roberts
Cynghorydd John Roberts
Cynghorydd Gareth Sandilands

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Siroedd Conwy a Dinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

**LOCAL GOVERNMENT ACT 2000**

**Code of Conduct for Members**

## DISCLOSURE AND REGISTRATION OF INTERESTS

| | |
|---|---|
| I, (*name*) | |
| a *member/co-opted member of<br>*(*please delete as appropriate)* | **Joint Overview & Scrutiny Committee for the Conwy & Denbighshire Public Services Board** |

**CONFIRM** that I have declared a ***personal / personal and prejudicial** interest not previously declared in accordance with the provisions of Part III of the Council's Code of Conduct for Members, in respect of the following:-
*(*please delete as appropriate)*

| | |
|---|---|
| Date of Disclosure: | |
| Committee (*please specify*): | |
| Agenda Item No. | |
| Subject Matter: | |
| Nature of Interest:<br><br>*(See the note below)** | |
| Signed | |
| Date | |

*Note: Please provide sufficient detail e.g. 'I am the owner of land adjacent to the application for planning permission made by Mr Jones', or 'My husband / wife is an employee of the company which has made an application for financial assistance'.

**CYD-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH**

Cofnodion cyfarfod o’r Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gyfrwng Fideo Gynhadledd, Dydd Gwener, 21 Hydref 2022 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Kelly Clewett, Pauline Edwards, Paul Keddie a/ac Elfed Williams, Cyngor Sir Ddinbych.
Y Cynghorwyr David Carr, Bernice McLoughlin, Angie O'Grady, Stephen Price, John Roberts, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Hannah Edwards, Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (CBSC)
Karen Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (CSDd)
Rhian Evans, Cydlynydd Craffu (CSDd)
Dawn Hughes, Swyddog Gwasanaethau Craffu a Phwyllgorau (CBSC)
Amanda Jones, Rheolwr Gwella Perfformiad a Gwelliant (CBSC)
Stephanie Jones, Gweinyddwr Pwyllgorau (CSDd)
Iolo McGregor, Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad (CSDd)
Shannon Richardson, Cynllunio Strategol a Pherfformiad (CSDd)

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Joan Butterfield, Cheryl Carlisle, Alan Hughes, Kay Redhead, Austin Roberts a Gareth Sandilands.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol sy’n rhagfarnu.

**3 PENODI CADEIRYDD**

Yn unol â chylch gorchwyl Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych, ceisiwyd enwebiad am Gadeirydd ar gyfer blwyddyn bwrdeistrefol 2022/23 o blith cynrychiolwyr Cyngor Sir Ddinbych ar y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu. Cafodd Gareth Sandilands ei gynnig a’i eilio. Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau eraill. Felly:

***<u>PENDERFYNWYD</u> yn unfrydol ethol y Cynghorydd Gareth Sandilands yn Gadeirydd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn ystod blynyddoedd bwrdeistrefol 2022/23.***

4 **PENODI IS-GADEIRYDD**

Hefyd, ac yn unol â chylch gorchwyl Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, ceisiwyd enwebiad am Is-gadeirydd ar gyfer blynyddoedd bwrdeistrefol 2022/23 o blith cynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu. Cafodd y Cynghorydd Cheryl Carlisle ei chynnig a'i heilio. Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau eraill. Felly:

***<u>PENDERFYNWYD</u> yn unfrydol ethol y Cynghorydd Cheryl Carlisle yn Is-gadeirydd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn ystod blynyddoedd bwrdeistrefol 2022/23.***

Gan fod y Cadeirydd ac Is-gadeirydd wedi ymddiheuro na fyddent yn y cyfarfod, gofynnwyd i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu enwebu aelod etholedig o un o'r ddau awdurdod lleol i fod yn Gadeirydd yn y cyfarfod. Enwebwyd ac eiliwyd y Cynghorydd John Roberts. Ni chafwyd enwebiad arall, felly:

***<u>Penderfynodd</u>: y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu i benodi'r Cynghorydd John Roberts yn Gadeirydd y cyfarfod yn absenoldeb y Cadeirydd ac Is-gadeirydd.***

5 **MATERION BRYS**

Nid oedd y swyddogion yn ymwybodol o faterion brys cyn y cyfarfod.

6 **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2022 er cymeradwyaeth. Felly:

***<u>Penderfynodd</u>: y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu gymeradwyo cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2022 fel cofnod cywir.***

Ni chodwyd unrhyw fater mewn perthynas â chynnwys y cofnodion.

7 **ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH 2021/22**

Cyflwynodd y Swyddog Gwella Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol (CBSC) Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2021/22 (dosbarthwyd ymlaen llaw). Rhoddodd yr adroddiad drosolwg o'r hyn roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, gan adlewyrchu cydymffurfiaeth â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn unol â 5 ffordd o weithio. Dyma oedd yr adroddiad blynyddol terfynol ar gyfer Cynllun Lles Conwy a Sir Ddinbych presennol.

<u>Prif Gyflawniadau yn 2021/22</u>

Mae’r ffocws wedi bod ar gefnogi busnesau a chymunedau drwy amseroedd heriol pandemig y coronafeirws, gan barhau i gydweithio gydag aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Prif gyflawniad y flwyddyn flaenorol oedd adolygu a diweddaru’r asesiad lleol o les ar gyfer y rhanbarth i baratoi ar gyfer Cynllun Lles 2023/2028. Fe ymgysylltwyd â chymunedau ac fe nodwyd y prif faterion a blaenoriaethau a sut y gallai’r Bwrdd helpu i ddylanwadu a darparu rôl arweinyddiaeth i helpu i fynd i’r afael â’r materion hynny.

Blaenoriaethau

1. Lles Meddyliol

Mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych wedi trefnu a darparu hyfforddiant ar godi ymwybyddiaeth o ran dementia i helpu cymunedau a grwpiau i gefnogi pobl gyda dementia.

2. Ymrymuso'r Gymuned

Mae cysylltedd digidol wedi helpu i gefnogi cymunedau i fod yn fwy gwydn yn ystod y pandemig, o gael gafael ar wasanaethau ar-lein i fwy o ddysgu a gweithio o gartref.

Trafodwyd cynlluniau cysylltedd, yn cynnwys:

- Cysylltu’r % Olaf Un - prosiect o dan Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru sydd yn targedu ardaloedd sydd heb gysylltiad band eang cyflym iawn.
- Prosiect LoRaWan - defnyddio technoleg i fonitro agweddau amrywiol o newidiadau amgylcheddau adeiledig a naturiol, yn cynnwys lefelau afonydd er mwyn cynorthwyo rhybuddion cynnar os bydd perygl o lifogydd.
- Partneriaethau Ffeibr Cymunedol - sefydlwyd y rhain gan Openreach i gefnogi darparu Band Eang mewn cymunedau nad ydynt ar gynllun cyflwyno.

Mae’r Bwrdd wedi cymryd rôl dylanwadu ac arweiniad yn y meysydd hynny i wella cysylltedd digidol.

3. Cadernid Amgylcheddol

Cynllun Addewid Gwyrdd Cymunedol - addewidion y rhoddodd grwpiau cymunedol i leihau eu heffaith amgylcheddol negyddol - cafodd ei ail-lansio yn haf 2021 a arweiniodd at 3 argymhelliad pellach. Roedd yna ymrwymiad i annog pobl i wneud yr addewid i wneud gwahaniaeth i newid hinsawdd.

Mae fframwaith amgylcheddol sefydliadol cyffredin wedi cael ei lunio, sefydlu grwpiau newydd - Rhwydwaith Swyddogion Datgarboneiddio a Newid Hinsawdd

Gogledd Cymru. Bydd y Bwrdd yn canolbwyntio ar ble y gallent ychwanegu gwerth yn hytrach na dyblygu gwaith o ran:

- Carbon a
- Gwydnwch Risg Hinsawdd.

Roedd cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer adeiladu cyfoeth cymunedol a phrosiect peilot caffael blaengar. Mae gweithgor wedi cael ei sefydlu gan CBSC a CSDd i ymchwilio sut y gellir datgarboneiddio’r gadwyn gyflenwi. Bydd casgliadau'r gweithgor yn cael eu hadrodd i’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus maes o law.

Ar ôl ystyried cynnwys adroddiad y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu:

***Penderfynwyd:***

***(i) derbyn Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer 2021/2022; a***

***(ii) cadarnhau ei fod yn fodlon bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mewn perthynas ag adrodd ar ei weithgareddau a’r cynnydd a wnaed wrth gyflwyno ei Gynllun Lles 2017-2022.***

**8 CYNLLUN LLES BWRDD GWASANAENTHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH 2023 I 2028**

Cyflwynodd Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad y Cynllun Lles 2023 i 2028 drafft arfaethedig (dosbarthwyd ymlaen llaw). Mae’r adroddiad eglurhaol yn amlinellu’r camau a gymerwyd i ddatblygu cynnwys y Cynllun Lles hyd yn hyn. Fe amlinellwyd bod yr adroddiad drafft wedi cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor fel ymgyngoreion statudol a cheisio adborth i lywio’r adroddiad terfynol a fyddai’n cael ei gyflwyno i’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 30 Tachwedd 2022.

Canolbwyntiodd y cynllun ar yr uchelgais o wneud Conwy a Sir Ddinbych yn lle mwy cyfartal i fyw gyda llai o amddifadedd. Wrth wneud hynny roedd yn ceisio mynd i’r afael â gwir achosion tlodi ac amddifadedd ac annog gwydnwch o dan bedwar prif thema:

1. Lles - Mae cymunedau’n hapusach, yn fwy iach ac yn fwy gwydn i wynebu heriau, megis newid yn yr hinsawdd neu gynnydd mewn costau byw.
2. Economi - Os bydd economi werdd ffyniannus, wedi’i chefnogi gan weithlu medrus.
3. Cydraddoldeb - Bydd y rhai â nodweddion a ddiogelir yn wynebu llai o rwystrau a
4. Tai - Mae gwell mynediad at dai o ansawdd da

Agwedd hanfodol o'r cynllun oedd gosod y sylfaen o ran sut y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei gyflawni. Roedd yna angen i gyflwyno'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel bwrdd arweinyddiaeth yn hytrach nag un o ddarparu (canolbwyntio ar gyfeirio at y rhai a allai ddarparu).

Gan ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau:

- Rhoddodd y swyddogion sicrwydd y bydd cyflwyno a chymeradwyaeth ddilynol o'r Cynllun Lles yn bodloni'r llinell derfyn statudol.

- Dywedodd fod yna ymgysylltu cyfyngedig gyda budd-ddeiliad gyda nodweddion a ddiogelir. Roedd yna brosiect rhanbarthol yn mynd rhagddo i geisio gwella ymgysylltu gyda'r rhai nid yn unig sydd â nodweddion a ddiogelir, ond y rhai sydd o dan anfantais cymdeithasol-economaidd, gan gynnwys 'grwpiau na chlywir ganddynt yn aml'.

- Annog grwpiau cymunedol a chynghorwyr i hyrwyddo ymgysylltu â phreswylwyr am y Cynllun Lles.

- Cyfeiriwyd at y thema Lles yn yr adroddiad o ran effaith amgylcheddol gan ddweud mai ei amcan oedd:

    - Cefnogi cynlluniau cludiant cynaliadwy a gwyrdd sydd yn gwella ansawdd aer cyffredinol, yn cynnwys cynlluniau teithio llesol ac iach sydd yn annog cerdded a beicio.

    - Lleihau allyriadau carbon a chynyddu capasiti ynni adnewyddadwy.

    - Amddiffyn a gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd naturiol, tra'n cynyddu ac annog mynediad cyfartal i asedau cefn gwlad.

    - Cefnogi cymunedau i liniaru ac ymdopi ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

- Dywedwyd nad oedd gofal cymdeithasol yn cael ei gynnwys o dan y Cynllun Lles (roedd bwrdd cydweithio rhanbarthol arall, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, yn darparu ar foderneiddio'r agenda gofal cymdeithasol).

Codwyd mynediad at gyfiawnder yn ardal Gogledd Cymru fel pryder. Clywodd y Pwyllgor fod newidiadau i'r system Cymorth Cyfreithiol yn golygu mai dim ond 20% o'r boblogaeth oedd yn gymwys am gymorth cyfreithiol, gan olygu bod nifer o bobl yn gorfod cynrychioli eu hunain yn y Llysoedd Teulu. Gofynnwyd a oedd modd tynnu sylw at y mater yn adroddiad 2022/2023 a'i ystyried yn rhan o'r Cynllun Lles? Cytunwyd i ychwanegu'r mater yn rhan o'r adborth i'r ymgynghoriad.

Ar ddiwedd trafodaeth y Pwyllgor:

***Penderfynodd**:- y Cydbwyllgor, ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad a'r Cynllun Lles drafft, ac yn amodol ar waith esboniadol sy'n cael ei wneud o ran 'sicrhau bod gwybodaeth a chymorth digonol ar gael i alluogi preswylwyr*

***Conwy a Sir Ddinbych i gael cyfiawnder a chymorth cyfreithiol' yn disgyn o fewn cylch gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych;***

***(i) cymeradwyo themâu a blaenoriaethau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2023 i 2028; a***

***(ii) cymeradwyo'r gweithredoedd arfaethedig i ddarparu'r Cynllun Lles.***

**9 RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynodd y Swyddog Gwasanaethau Craffu a Phwyllgorau (CBSC) rhaglen gwaith i'r dyfodol drafft (dosbarthwyd ymlaen llaw) yn atgoffa'r Pwyllgor y bydd y cyfarfod nesaf ar 10 Mawrth 2023. Bydd dwy eitem yn cael eu cyflwyno:

1. Cofrestr risg y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a
2. Chyfraniad Partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i waith y BGC a manteision y BGC i bartneriaid.

Roedd y Pwyllgor eisoes wedi gwahodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i amlinellu eu cyfraniad i'r BGC a'r manteision iddynt o fod yn rhan o'r BGC ac roedd eu cyfraniad yn llawn gwybodaeth. Ar ôl ystyried aelodaeth statudol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, fe wnaethant gytuno i wahodd cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i fynychu'r cyfarfod nesaf i roi cyflwyniad am yr ail achos busnes.

Felly:

***<u>Penderfynodd</u>: y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, yn amodol ar y sylwadau uchod –***

***(i) i gadarnhau ei raglen gwaith i'r dyfodol drafft ar gyfer y cyfarfod sydd wedi'i drefnu ar gyfer 10 Mawrth 2023 fel yr amlinellir yn yr adroddiad; a***

***(ii) bod cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael eu gwahodd i fynychu'r cyfarfod uchod i drafod cyfraniad y Bwrdd i waith y BGC gydag aelodau'r Bwrdd, ynghyd â manteision y Bwrdd Iechyd o fod yn aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.***

Atgoffodd y Cydlynydd Craffu (CSDd) y Pwyllgor y bydd Cadeirydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cyflwyno cofnodion cyfarfod y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu i gyfarfod BGC nesaf yn rhan o'r broses gyfathrebu ddwy ffordd rhwng y ddau endid.

**10 CYLCH GORCHWYL A RHEOLAU GWEITHDREFN AR GYFER CYD-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH**

Cafodd y ddogfen ei nodi.

**11 FFRAMWAITH CENEDLAETHAU'R DYFODOL AR GYFER CRAFFU**

Cafodd y fframwaith ei nodi.

**12 COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS A GYNHALIWYD AR 27 GORFFENNAF 2022**

Cafodd yr adroddiad gwybodaeth ei nodi.

**13 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH**

Cafodd yr adroddiad gwybodaeth ei nodi.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.05am.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **30 Mehefin 2023** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Y Cyng. Jason McLellan, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych *a chadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.*** <br> **Y Cyng. Charlie McCoubrey, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy *ac Is-Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus*** |
| **Awduron yr Adroddiad:** | **Amanda Jones, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** <br> **Hannah Edwards, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** <br> **Iolo McGregor, Cyngor Sir Ddinbych** |
| **Teitl:** | **Cofrestr Risg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Diweddariad blynyddol ar Gofrestr Risg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Conwy a Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I roi gwybod i'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu am y risgiau sy'n wynebu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a rhoi sicrwydd bod y risgiau hynny'n cael eu rheoli a'u monitro.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr aelodau yn ystyried cynnwys cofrestr risg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych (ynghlwm) a darparu adborth/ argymhellion i'r Bwrdd fel sy'n ofynnol.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Caiff Cofrestr Risg y BGC ei datblygu gan y BGC a'r Bwrdd sydd yn berchen arni. Mae'n cael ei hadolygu'n ffurfiol unwaith y flwyddyn, fel yr amlinellir yn y Cylch Gorchwyl.

Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf ym mis Tachwedd 2022.

4.2 Yn ystod yr adolygiad diweddaraf hwn mae yna nifer o ddiweddariadau bach wedi bod, dyma grynodeb:

- Cynnwys colofn ychwanegol i adnabod camau lliniaru yn y dyfodol i annog meddwl ac ataliad hirdymor.
- BGC 2: Y risg nad yw sefydliadau partner yn ymroddedig i'r Bwrdd. Cynnwys tri cham lliniaru ychwanegol:
    i. Mae aelodau BGC wedi cytuno i sefydlu cyfarfodydd anffurfiol i drafod rhaglenni sydd ar ddod, datblygu perthynas a rhwydweithio.
    ii. Cydbwyllgor Craffu wedi'i sefydlu i werthuso effeithlonrwydd y BGC.
    iii. Mae cynrychiolwyr oddi ar restr y BGC o gyfranogwyr gwadd yn cael eu cyfethol i'r Cydbwyllgor Craffu pan fo angen, i drafod eitemau/meysydd gwaith penodol fel ffordd o asesu effeithiolrwydd cynlluniau'r Bwrdd.

- BGC 3: Y risg fod y BGC yn methu sicrhau'r effaith mwyaf posibl y gall ei gyflawni drwy ddull cydweithredol. Cynnwys tri cham lliniaru ychwanegol:
    i. Cefnogaeth gan y rhwydwaith cyd-gynhyrchu i sicrhau ein bod yn cydweithio'n llwyddiannus.
    ii. Cydbwyllgor Craffu wedi'i sefydlu i werthuso effeithlonrwydd y BGC.
    iii. Mae cynrychiolwyr oddi ar restr y BGC o gyfranogwyr gwadd yn cael eu cyfethol i'r Cydbwyllgor Craffu pan fo angen, i drafod eitemau/meysydd gwaith penodol fel ffordd o asesu effeithiolrwydd cynlluniau'r Bwrdd.

- Un risg newydd wedi'i nodi. BGC 6: Y risg bod problemau recriwtio a chadw, sy'n arwain at golli arbenigedd a chapasiti, yn gwaethygu gan arwain at wasanaethau gwael neu annigonol.

Nid oes unrhyw risgiau wedi'u tynnu.

**5. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

5.1 Trafodwyd y gofrestr risg mewn cyfarfod o'r BGC ym mis Tachwedd 2022, a chafodd y newidiadau arfaethedig i'r risgiau eu cefnogi gan y Bwrdd.

5.2 Awgrymodd y BGC y dylid diwygio geiriad BGC 6 i fod yn ehangach i amlygu'r ffaith y gallai problemau recriwtio a chadw effeithio ar y gwaith sy'n gallu cael ei wneud ar draws holl bartneriaid y Bwrdd.

**6. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

6.1 Amherthnasol

## 7. Pŵer i wneud y penderfyniad

7.1 Adran 35 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

7.2 Adran 3 o Gylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

# **Cofrestr Risg y Bwrdd a Risg Gymunedol**

Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth ar y risgiau craidd a nodir gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r gofrestr risg hefyd yn nodi risgiau cymdeithasol a byd-eang ehangach lle gallai sefydliadau partner y BGC gael eu heffeithio pe bai'r risg yn dod yn ffaith.

| Cyfeirnod a Disgrifiad o'r Risg | Effaith Bosibl | Sgôr Risg Gynhenid | Camau Lliniaru Risg | Camau Lliniaru yn y Dyfodol | Sgôr Risg Weddilliol | Dyddiadau Pwysig | Cyfrifol am y Cam Gweithredu Owner |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **BGC 1**<br><br>Y risg bod gan y BGC gyllid, adnoddau a chapasiti annigonol i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Lles. | - Methu â chyflawni'r Cynllun Lles.<br>- Methu â gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ein poblogaeth.<br>- Peidio â glynu wrth Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, gan arwain at ganlyniadau posibl gan y Comisiynydd. | **B3: Risg fawr – Tebygol / Canolig** | **- Ychydig o gyllid grant BGC ar gael i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Lles.<br>- Rheolaeth y rhaglen mewn grym i gynorthwyo gyda dyrannu adnoddau a chynllunio ar gyfer cyflawni.<br>- Dylai unrhyw bwysau o ran capasiti gael ei godi gyda chadeirydd y BGC.** | **- Cynllunio hirdymor i sicrhau y bodlonir terfynau amser statudol.<br>- Rheoli cyllid y BGC yn effeithiol yn y dyfodol.** | **C3: Risg gymedrol – Posibl / Canolig** | 31.03.28 | BGC |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **BGC 2**<br><br>Y risg nad yw sefydliadau partner yn ymroddedig i'r bwrdd. | - Presenoldeb isel mewn cyfarfodydd.<br>- Diffyg perchnogaeth dros gynllun a blaenoriaethau'r BGC.<br>- Gwaith y BGC yn cael ei weld fel endid ar wahân a ddim wedi ei ymgorffori i 'fusnes arferol' sefydliadau.<br>- Yn niweidio effeithiolrwydd, gan arwain at ganlyniadau o ran enw da. | **C2: Risg fawr – Posibl / Uchel** | - **Cylch Gorchwyl mewn grym yn nodi'r trefniadau gwaith ar gyfer y Bwrdd, gan gynnwys diben, strwythur ac aelodaeth ddisgwyliedig.**<br>- **Y Bwrdd yn cael ei lywodraethu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.**<br>- **Tystiolaeth gadarn a rhesymeg yn seiliedig ar ymgynghoriad ar gyfer blaenoriaethau cyfredol.**<br>- **Cadw rhaglen yn strategol.**<br>- **Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol.**<br>- **Adborth rheolaidd gan aelodau'r bwrdd.**<br>- **Mae aelodau'n cyflwyno 'cyfarfodydd anffurfiol' rhwng cyfarfodydd y BGC i drafod rhaglenni sydd ar ddod, datblygu perthnasoedd a rhwydweithio.**<br>- **Cydbwyllgor Craffu wedi'i sefydlu i werthuso effeithlonrwydd y BGC.**<br>- **Mae cynrychiolwyr oddi ar restr y BGC o gyfranogwyr gwadd yn cael eu cyfethol i'r Cydbwyllgor Craffu pan fo angen, i drafod eitemau / meysydd gwaith penodol fel ffordd o asesu effeithiolrwydd cynlluniau'r Bwrdd.** | **- Nodi sefydliadau partner a'u cynnwys fel rhai sy'n gyfrifol am gamau gweithredu ar gyfer amcanion perthnasol yn y Cynllun Lles i sicrhau cyfranogiad cyfartal.** | **C3: Risg gymedrol – Posibl / Canolig** | 31.03.28 | BGC |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **BGC 3**<br><br>Y risg bod y BGC yn methu sicrhau'r effaith mwyaf posibl y gall ei gyflawni drwy ddull cydweithredol. | - Gwaith yn cael ei wneud mewn seilos, gan arwain at ddyblygu posibl ac aneffeithiolrwydd. | **B2: Risg gritigol – Tebygol / Uchel** | - **Rheolaeth y rhaglen mewn grym i gynorthwyo gyda dyrannu adnoddau partner a chynllunio ar gyfer cyflawni.**<br>- **Sicrhau bod dealltwriaeth dda ymysg y partneriaid drwyddynt draw o'r hyn y mae'r bwrdd yn ei gyfanrwydd yn ceisio ei gyflawni.**<br>- **Sicrhau bod aelodau'r bwrdd, gwasanaethau a thimau wedi ymrwymo i flaenoriaethau wedi iddynt fod yn rhan o'u cynllunio a'u blaenoriaethu.**<br>- **Cefnogaeth gan y rhwydwaith cydgynhyrchu i sicrhau ein bod yn cydweithio'n llwyddiannus.**<br>- **Cydbwyllgor Craffu wedi'i sefydlu i werthuso effeithlonrwydd y BGC.**<br>- **Mae cynrychiolwyr oddi ar restr y BGC o gyfranogwyr gwadd yn cael eu cyfethol i'r Cydbwyllgor Craffu pan fo angen, i drafod eitemau / meysydd gwaith penodol fel ffordd o asesu effeithiolrwydd cynlluniau'r Bwrdd.** | - **Nodi a deall rhyngddibyniaethau rhwng blaenoriaethau a ffrydiau gwaith.** | **C2: Risg fawr – Posibl / Uchel** | 31.03.28 | BGC |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **BGC 4**<br><br>Y risg bod y tirlun partneriaeth cymhleth, yn rhanbarthol ac isranbarthol, yn effeithio ar gyflawni'r Cynllun Lles. | - Dyblygu posibl gydag enghreifftiau eraill o gydweithio.<br>- Materion yn ymwneud â chapasiti ac adnoddau. | **B3: Risg fawr – Tebygol / Canolig** | **- Rheolaeth y rhaglen mewn grym i gynorthwyo gyda dyrannu adnoddau partner a chynllunio ar gyfer cyflawni.**<br>**- Cyfranogiad budd-ddeiliaid yn y dasg o gynllunio datrysiadau.**<br>**- Ymgymryd ag ymchwil cynt ac yn ystod datblygiad partneriaethau / cydweithio i sicrhau bod y prif ganlyniadau'n berthnasol i bawb.** | **- Sefydlu gweledigaeth gref a pherthnasol sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, a gaiff ei hadolygu'n rheolaidd.** | **C3: Risg gymedrol – Posibl / Canolig** | 31.03.28 | BGC |
| **BGC 5**<br><br>Y risg y daw tonnau pellach o Covid-19 lle byddai'n ofynnol i aelodau'r BGC ganolbwyntio eu sylw ar ymateb. | - Methu gwireddu amcanion lles y BGC. | **B2: Risg gritigol – Tebygol / Uchel** | **- Gohirio prosiectau a chynghori'r comisiynydd yn unol â hynny.** | **- Defnyddio proses a gweithdrefnau sefydledig o donnau blaenorol.**<br>**- Monitro'r sefyllfa'n ofalus.** | **B3: Risg fawr – Tebygol / Canolig** | 31.03.28 | BGC |
| **BGC 6**<br><br>Y risg bod problemau recriwtio a chadw yn gwaethygu yn y sefydliadau partner drwyddynt draw, gan arwain at golli arbenigedd a lleihau capasiti i | - Materion yn ymwneud â chapasiti ac adnoddau.<br>- Methu gwireddu amcanion lles y BGC.<br>- Anhawster bodloni gofynion statudol.<br>- Presenoldeb isel mewn cyfarfodydd.<br>- Diffyg perchnogaeth dros gynllun a blaenoriaethau'r BGC. | **B2: Risg gritigol – Tebygol / Uchel** | **- Sicrhau bod yr holl dargedau'n benodol, mesuradwy, realistig a chyraeddadwy.**<br>**- Gwaith yn cael ei wneud yn rhanbarthol i fynd i'r afael â phroblemau recriwtio neilltuol / difrifol.** | **- Trosglwyddiadau digonol pan fo pobl yn gadael.**<br>**- Bydd cyflawni ein hamcanion o fewn y Cynllun Lles o gymorth i liniaru'r risg hon, yn benodol y rheiny o dan thema'r 'Economi'.** | **C3: Risg gymedrol – Posibl / Canolig** | 31.03.28 | BGC |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| allu cyflawni gwaith y BGC. | | | | | | | |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**CYD-BWYLLGOR CRAFFU**
**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH**

# RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Rhian Evans, Cydlynydd Craffu CSDd<br>Dawn Hughes, Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor a Chraffu, CBSC |
| E-bost: | rhian.evans@sirddinbych.gov.uk<br>dawn.hughes@conwy.gov.uk |
| Rhif Ffôn: | 01824 712554<br>01492 576061 |

| Dyddiad | Testun |
|---|---|
| | |
| **30 Mehefin 2023** | **Cofrestr Risg**<br>Cofrestr Risg y BGLl<br><br>(Amanda Jones & Iolo McGregor) |
| | **Cyfraniad Partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i waith y Bwrdd a buddion y Bwrdd i bartneriaid**<br><br>(gwahoddiad i'w estyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i roi cyflwyniad) |
| | |
| **20 Hydref 2023** | **Diweddariad gan y BGLl ar Weithrediad y Cynllun Lles?**<br>Y BGLl i adrodd ar ei gynnydd cychwynnol o ran gweithredu ei Gynllun Lles gan gynnwys unrhyw rwystrau neu bwysau a wynebwyd hyd yma<br><br>(Amanda Jones & Iolo McGregor) |
| | **Cyfraniad Partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i waith y Bwrdd a buddion y Bwrdd i bartneriaid?**<br><br>(gwahoddiad i'w estyn i un o bartneriaid y BGLl i roi cyflwyniad) |
| | |
| | **Dyddiadau arfaethedig ar gyfer 2024** *(i'w cadarnhau)*<br><br>Dydd Gwener, 15 Mawrth 2024<br>Dydd Gwener, 18 Hydref 2024 |

| Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Siroedd Conwy a Dinbych<br>Ffurflen Gynnig gyfer Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Craffu | |
|---|---|
| | I'w benderfynu gan y Cyd-Bwyllgor neu gan ei Gadeirydd ac Is-Gadeirydd |
| **AMSERLEN I'W HYSTYRIED** | |
| **TESTUN** | |
| **Beth sydd angen ei graffu arno (a pham)?** | |
| **Ydi'r mater yn un o bwys i drigolion/busnesau lleol?** | **YDI/NAC YDI** |
| **Ydi craffu yn gallu dylanwadu ar bethau a'u newid?**<br>(Os 'ydi' nodwch sut rydych chi'n meddwl y gall craffu ddylanwadu neu newid pethau) | **YDI/NAC YDI** |
| **Ydi'r mater yn ymwneud â gwasanaeth neu faes sy'n tanberfformio?** | **YDI/NAC YDI** |
| **Ydi'r mater yn effeithio ar nifer fawr o drigolion neu ar ardal fawr?**<br>(Os 'ydi', rhowch syniad o faint y grŵp neu'r ardal yr effeithir arni) | **YDI/NAC YDI** |
| **Ydi'r mater yn gysylltiedig â blaenoriaethau y Bwrdd Gwasanaethau Lleol?**<br>(Os 'ydi' nodwch pa flaenoriaethau) | (i'w benderfynu gan GCIGC)<br>**YDI/NAC YDI** |
| **Hyd y gwyddoch, oes yna rywun arall yn edrych ar y mater hwn?**<br>(Os 'oes', nodwch pwy sy'n edrych arno) | **OES/NAC OES** |
| **Os derbynnir y testun ar gyfer craffu, pwy ddylai gael ei wahodd** | |
| **Enw'r Cynnigydd** | |
| **Dyddiad** | |

**Ystyried addasrwydd pwnc ar gyfer craffu**

**Ffurflen Gynnig / Cais a dderbyniwyd**

(dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r rhesymau dros wneud cais)

**Ydi o'n bodloni'r gofynion canlynol?**

- **Diddordeb Cyhoeddus** – ydi'r mater o bwys i drigolion?
- **Effaith**– fedr craffu yn gael effaith ar bethau a'u newid?
- **Perfformiad** – ydi o'n wasanaeth neu faes sy'n tanberfformio?
- **Graddfa** – ydi o'n effeithio ar nifer o drigolion neu ardal ddaearyddol fawr?
- **Ailadrodd** – ydi'r mater yn destun craffu/ymchwiliad gan berson neu gorff arall?

**NAC YDI**

Dim gweithredu pellach gan y Pwyllgor Craffu. Gellir ei gyfeirio at gorff arall neu ofyn am adroddiad er gwybodaeth.

**YDI**

- Penderfynu ar y canlyniadau a ddymunir
- Penderfynu ar gwmpas a swmp y gwaith craffu sydd ei angen a'r dull mwyaf priodol o graffu (h.y. adroddiad pwyllgor, ymchwiliad grŵp tasg a gorffen neu aelod cyswllt ac ati)
- Os penderfynir sefydlu grŵp tasg a gorffen, dylid penderfynu ar amserlen yr ymchwiliad, pwy fydd yn rhan o'r ymchwiliad, beth yw'r gofynion ymchwilio, a oes angen cyngor arbenigol a thystion, a beth yw'r trefniadau adrodd ac ati.

**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH**

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd drwy gyfrwng fideo gynadledda ddydd Llun, 26 Medi 2022 am 2.00 pm.

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Libby Ryan Davies | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | Iwan Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Y Cynghorydd Charlie McCoubrey | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Y Cynghorydd Jason McLellan | Cyngor Sir Ddinbych |
| | Nicola Kneale (yn cynrychioli Graham Boase) | Cyngor Sir Ddinbych |
| | Martin Cox | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Justin Hanson | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Helen Macarthur | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Helena Kirk | Cymdeithas Tai Gogledd Cymru |
| | Louise Woodfine | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Swyddogion:** | Amanda Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Hannah Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Mike Corcoran | Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru |
| | Suzanne Iuppa | Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru |
| | Iolo McGregor | Cyngor Sir Ddinbych |
| | Shannon Richardson | Cyngor Sir Ddinbych |
| | Rhodri Tomos-Jones | Cyngor Sir Ddinbych |
| | Helen Millband | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Sandra Williams | Cyfieithydd |
| **Arsylwyr** | Janet Jones | Iechyd Cyhoeddus Cymru |

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau gan -

- Graham Boase, Cyngor Sir Ddinbych
- Jo Whitehead, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Wendy Jones, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
- Tom Barham, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
- Y Cynghorydd Carol Marubbi, cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned Conwy
- Vicky Poole, Llywodraeth Cymru

**2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2022.

Materion cywirdeb -

- Roedd enwau Jo Whitehead a Helen MacArthur wedi'u camsillafu.

***PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir.*

## 3 TRACIO CAMAU GWEITHREDU'R CYFARFOD

Cyflwynodd y Cadeirydd, Jason McLellan, y camau gweithredu. Roedd y bwrdd yn hapus gyda'r camau gweithredu ac yn hapus i drafod y materion a oedd yn rhan o'r rhaglen mewn rhagor o fanylder yn nes ymlaen yn y cyfarfod.

## 4 MATERION YN CODI

Croesawodd y cadeirydd ac Iolo McGregor Libby Ryan Davies i'w chyfarfod cyntaf o'r bwrdd. Ni chafodd unrhyw faterion eraill eu trafod.

## 5 DATBLYGIAD Y CYNLLUN LLES - Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AR ADBORTH YR YMGYNGHORIAD HYD YMA

Rhannodd Iolo McGregor ac Amanda Jones y wybodaeth ddiweddaraf gydag aelodau ar yr ymgynghoriad a'r adborth a dderbyniwyd ar ddatblygiad y cynllun Lles.

Lansiwyd yr ymgynghoriad statudol 12 wythnos ar 17 Awst, a bydd yn dod i ben ar 9 Tachwedd. Roedd y cynllun drafft wedi cael ei rannu â'r ymgyngoreion statudol fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a budd-ddeiliaid allweddol eraill. Byddai Pwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn cael ei ymgynghori ar y cynllun drafft yn eu cyfarfod nesaf.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw un wedi ymateb i'r ymgynghoriad; gallai hynny fod o ganlyniad i ddyddiad lansio'r ymgynghoriad a'r egwyl yn ystod y cyfnod galaru. Fodd bynnag, bydd swyddogion yn parhau i hyrwyddo'r ymgynghoriad i annog adborth, gan gynnwys drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Gofynnwyd i bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rannu'r ymgynghoriad gyda'u sefydliad a'u rhwydweithiau.

Ychwanegodd Iolo, er mai Conwy oedd yn cynnal yr ymgynghoriad, roedd Sir Ddinbych wedi bod yn gweithio ar ychwanegu manylion at y cynllun, yn dilyn trafodaethau gyda'r swyddfa Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys ychwanegu 4 thema allweddol i gefnogi'r prif uchelgais o leihau amddifadedd ac anghydraddoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys -

- **Lles** - Mae cymunedau'n hapusach, yn fwy iach ac yn fwy gwydn i wynebu heriau, megis newid yn yr hinsawdd neu gynnydd mewn costau byw.
- **Economi -** Mae economi werdd ffyniannus, wedi'i chefnogi gan weithlu medrus.
- **Cydraddoldeb** - Mae'r rhai â nodweddion a ddiogelir yn wynebu llai o rwystrau.
- **Tai** - Mae gwell mynediad at dai o ansawdd da.

Cadarnhawyd y byddai'r cynllun lles drafft yn cael ei rannu gydag aelodau ar ôl y cyfarfod er mwyn rhoi cyfle iddynt ddarparu unrhyw sylwadau pellach. Gofynnwyd iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau neu adborth erbyn 7 Hydref 2022, er mwyn galluogi swyddogion i wneud y newidiadau gofynnol. Bydd y cynllun lles drafft terfynol yn cael ei gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y BGC ym mis Tachwedd, er mwyn galluogi aelodau i'w gymeradwyo o fewn eu sefydliadau eu hunain. Bydd cymeradwyaeth terfynol o'r cynllun yn cael ei geisio yng nghyfarfod y BGC ym mis Mawrth 2023.

Amlygodd Martin Cox – Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) y byddai'n rhaid gweld cysylltiadau amlwg gyda'r cynllun lles a'r argyfwng hinsawdd er mwyn cael cefnogaeth lawn sefydliadau megis CNC.

Roedd Louise Woodfine yn cefnogi'r themâu a amlygwyd gan Iolo; roedd y bwrdd iechyd yn casglu ymatebion a byddai'r rhain yn cael eu hanfon at y swyddogion priodol.

Nododd Iolo McGregor ac Amanda Jones y byddent yn hapus i dderbyn unrhyw adborth pellach gan y bwrdd dros e-bost.

Diolchodd y cadeirydd i swyddogion am eu gwaith mewn perthynas â'r cynllun lles.

***PENDERFYNWYD*** *–*

*i. bod y BGC yn nodi'r cynllun lles.*
*ii. y byddai swyddogion cefnogi'r BGC yn rhannu'r cynllun lles drafft gydag aelodau er mwyn rhoi cyfle iddynt gyflwyno sylwadau erbyn 7 Hydref 2022.*

**6 PROSIECT NARATIFAU CYMUNEDOL – CYTUNO AR ARDALOEDD CYMUNEDOL AR GYFER CONWY A SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd y cadeirydd yr ardaloedd cymunedol cytunedig ar gyfer y prosiectau naratif Cymunedol, sef Pensarn ar gyfer Conwy a'r Rhyl ar gyfer Sir Ddinbych. Penderfynodd y bwrdd ar yr ardaloedd hyn; nodwyd y gellid ystyried ardaloedd gwledig yn y ddwy Sir eto gyda'r prosiectau naratif Cymunedol.

***PENDERFYNWYD*** *bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y prosiect Naratif Cymunedol.*

**7 SIARTER TEITHIO IACH**

Cyflwynodd Louise Woodfine o Gyfoeth Naturiol Cymru'r siarter teithio iach (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

Yn 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Amcan y strategaeth yw cyflawni newidiad drwy ddisodli siwrneiau ceir preifat gyda cherdded, beicio a chludiant cyhoeddus. Mae'r strategaeth hon wedi ei hategu ymhellach gan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru).

O ganlyniad i fuddion sylweddol teithio llesol i iechyd y cyhoedd, mae Tîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi arwain yn y gwaith o ddatblygu Siarter Teithio Iach ar gyfer gogledd Cymru (gweler Atodiad a). Datblygwyd y siarter mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol yng ngogledd Cymru, gan gynnwys y chwe Awdurdod Lleol, Sustrans, Cyfoeth Naturiol Cymru a Thrafnidiaeth Cymru. Mae'r siarter yn rhoi ystod o feysydd i sefydliadau lle y dylid gweithredu, gan rychwantu arweinyddiaeth a chyfathrebu, cludiant cyhoeddus, cerdded a beicio, gweithio hyblyg a cherbydau allyriadau isel iawn.

Ar 8 Gorffennaf 2022 cyflwynwyd y Siarter Teithio Iach i Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Gofynnwyd i'r sefydliadau sy'n aelodau gefnogi mabwysiadu'r siarter yn eu sefydliadau. Ochr yn ochr â'r argymhelliad hwn awgrymwyd bod y Siarter yn cyd-fynd yn dda gydag Amcanion Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Gallai codi ymwybyddiaeth, cefnogi a hyrwyddo mabwysiadu'r Siarter ymysg sefydliadau partner y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng ngogledd Cymru, a chynnig cefnogaeth i sefydliadau llai gan y partneriaid hynny sydd eisoes wedi llwyddo i wneud cynnydd sylweddol o ran blaenoriaethau teithio llesol, fod yn hanfodol i'r BGC.

Dros y 50 mlynedd ddiwethaf, mae dibyniaeth gynyddol ar deithio mewn car wedi arwain at ostwng lefelau gweithgarwch corfforol, codi lefelau gordewdra, llygredd aer helaeth, arwahanrwydd cymdeithasol, a gwaethygu anghydraddoldebau iechyd. Mae teithio llesol yn disgrifio newid o ddefnyddio car i 'gerdded a beicio'.

Mae BGC Conwy a Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn y broses o gwblhau ei gynllun lles. Mae'r BGC wedi cytuno mai'r amcan lles ar gyfer 2023-2025 oedd 'Yr ydym eisiau i Gonwy a Sir Ddinbych fod yn lle cyfartal â llai o amddifadedd'. Nodwyd mai'r hyn sydd wrth wraidd yr annhegwch a brofir ledled Conwy a Sir Ddinbych ar hyn o bryd yw:

- Costau byw
- Angen am isadeiledd ffisegol a digidol gwell
- Diffyg hyder a dyhead
- Bylchau mewn sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth
- Argaeledd tai iach
- Mynediad at wasanaethau
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Effaith Covid-19

Mae blaenoriaethu gweithredoedd partneriaid y BGC wrth fabwysiadu'r Siarter Teithio Iach, a chefnogi partneriaid mwy cynhwysol i fabwysiadu a rhoi'r siarter ar

waith, yn rhoi'r cyfle i'r BGC ddechrau mynd i'r afael â rhai o'r materion sydd wrth wraidd y broblem.

Mae BGC Conwy a Sir Ddinbych hefyd wedi cydnabod y pwysigrwydd o anghydraddoldeb Cymdeithasol, Amgylcheddol, Diwylliannol ac Economaidd. Mae ansawdd aer a gwrthdrawiadau traffig ffyrdd yn achosi llawer o'r anghydraddoldebau hyn. Mae'r rheiny sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn fwy tebygol o fod yn byw mewn ardaloedd sydd ag ansawdd aer gwael.

Roedd y bwrdd yn hapus gyda'r Siarter Teithio Iach. Fodd bynnag, amlygodd Iwan Davies yr elfen o gerbydau carbon isel mewn perthynas â theithio llesol, ac awgrymodd y gellid newid y geiriad i annog pobl i gerdded neu feicio siwrneiau byr yn hytrach na defnyddio cerbydau allyriadau isel. Byddai Louise Woodfine yn cyflwyno'r awgrym i'r bwrdd iechyd.

Rhoddodd Nicola Kneale wybod i'r bwrdd bod Sir Ddinbych yn gweithio ar eu cynllun corfforaethol newydd, a gellid ystyried y siarter Teithio Iach yn y broses o'i lunio.

***PENDERFYNWYD bod –***

***(i) Y BGC yn darparu cefnogaeth ar y cyd drwy weithio tuag at fabwysiadu ethos ac egwyddorion y Siarter Teithio Iach yn eu sefydliadau.***
***(ii) Bod aelodau'r BGC yn annog ac yn dylanwadu ar aelodau'r system ehangach i godi ymwybyddiaeth, a chefnogi a hyrwyddo'r Siarter Teithio Iach.***
***(iii)Bod y BGC yn nodi'r Siarter Teithio iach ac yn gweithio gydag ac yn datblygu gweithrediad elfennau o'r siarter.***

## 8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd copi o raglen gwaith i'r dyfodol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Codwyd trosolwg o'r Cydbwyllgorau Corfforedig, a gofynnwyd a fyddai modd i unrhyw wybodaeth sydd gan CSDd a CBSC gael ei rhannu gyda'r BGC; roedd y Cadeirydd yn hapus i rannu'r wybodaeth gyda'r BGC.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol.*

**DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 2.35 PM.**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH**

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd trwy gyfleuster fideo gynadledda, ddydd Mercher, 30 Tachwedd 2022 am2.00 pm.

**YN BRESENNOL**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jason McLellan | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cynghorydd Goronwy Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Martin Cox | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Mark Hughes | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Helen McArthur | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Louise Woodfine | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Iechyd y Cyhoedd) |
| Emma Lea | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (yn bresennol yn lle Libby Ryan-Davies) |
| Jan Smith | Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy (CVSC) |
| Tom Barham | Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych |
| Jeff Moses | Heddlu Gogledd Cymru |
| Vicky Poole | Llywodraeth Cymru |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Amanda Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Hannah Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Fran Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iolo McGregor | Cyngor Sir Ddinbych |
| Shannon Richardson | Cyngor Sir Ddinbych |
| Stephanie Jones (Gwesteiwr) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Rhodri Tomos-Jones | Cyngor Sir Ddinbych |
| Helen Miliband | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Iona Hughes | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Mike Corcoran | Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru |

**HEFYD YN BRESENNOL**

Sylwedydd – Y Cynghorydd Gareth Sandilands (Cyngor Sir Ddinbych)

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau gan -

- Y Cynghorydd Charlie McCoubrey – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

- Rhun ap Gareth – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Owain Llywelyn – Heddlu Gogledd Cymru
- Libby Ryan Davies – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Graham Boase – Cyngor Sir Ddinbych

Diolchodd cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i Brif Weithreder blaenorol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Iwan Davies, am ei holl waith caled a'i ymroddiad yn ystod ei gyfnod ar y BGC.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 26 Medi 2022.

Materion cywirdeb -

- Tynnodd Louise Woodfine sylw at wall ar dudalen 3; roedd hi'n cynrychioli Iechyd Cyhoeddus Cymru ac nid Cyfoeth Naturiol Cymru.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod* a gynhaliwyd ar 26 Medi 2022 *fel cofnod cywir.*

## 3 TRACIO CAMAU GWEITHREDU'R CYFARFOD

Cyflwynodd y Cadeirydd, Jason McLellan, y Camau Gweithredu. Roedd y bwrdd yn fodlon â'r camau gweithredu; fe'u hysbyswyd y byddai sesiwn rwydweithio anffurfiol 2023 yn cael ei threfnu fel cyfarfod personol.

## 4 CYNLLUN LLES - CYMERADWYO'R CYNLLUN DRAFFT

Cyflwynodd Iolo McGregor, Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad, Cyngor Sir Ddinbych, Gynllun Lles BGC Conwy a Sir Ddinbych, 2023 i 2028.

Diolchodd y cadeirydd i'r holl gyrff allanol am y cymorth gyda'r adborth gan y bwrdd ynglŷn â'r Cynllun Lles.

Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Lles drafft ar 17 Awst a daeth i ben ar 9 Tachwedd. Ar yr un pryd, cychwynnwyd y cyfnod o 14 wythnos ble roedd gofyn i Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddarparu adborth ar ein cynllun drafft.

Cafodd gwaith ei wneud yn ystod y cyfnod ymgynghori, i ddatblygu'r manylion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun ymhellach. Roedd hyn yn seiliedig ar yr adborth a'r wybodaeth a dderbyniwyd, gan gynnwys ymatebion gan bartneriaid a swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, megis Cyfoeth Naturiol Cymru.

Sut y byddem ni'n gweithio –

Roedd angen sefydlu'r BGC o ddechrau'r Cynllun Lles hwn, er mwyn sicrhau ei fod yn darparu'r buddion cywir i'n cymunedau, yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon.

Wrth gyflawni ein holl weithgareddau, bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio ar y cyd yn ei rôl partneriaeth o ran:

- Arweinyddiaeth
- Cyd-gynhyrchu
- Tegwch
- Gwneud penderfyniadau deallus

Y cam nesaf yw ceisio, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau, cymeradwyaeth o fersiwn derfynol i alluogi sefydliadau partner roi eu cadarnhad rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth, cyn eu mabwysiadu gan y BGC ar 23 Mawrth. Mae Conwy eisoes wedi cynnal trafodaethau â'u huwch dîm.

Trafododd y Bwrdd y materion canlynol ymhellach –

- Martin Cox (CNC) – Diolchodd yn gyntaf i'r swyddogion am yr holl waith a'r ymgysylltu a wnaethpwyd; cytunodd ei bod hi'n fuddiol cael cynllun ar y wefan; fel aelod bwrdd statudol, amlygodd o bosib y byddai CNC yn cyflwyno rhagor o sylwadau yn dilyn cyfarfod bwrdd ar 12 Rhagfyr 2022.
- Gofynnwyd am yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer cwblhau'r gwaith, ac a fyddai modd cyflawni'r cynllun yn yr hinsawdd bresennol; eglurodd swyddogion bod y cyflwyniad i'r cynllun yn amlygu'r hyn y gellir ei wneud yn yr hinsawdd bresennol, ac y byddai angen cyflawni'r cynllun â'r hyn sydd gan y partneriaid i'w gynnig.
- Trafododd Swyddogion yr angen i aelodau'r BGC lywio'r prosiect; gallai risgiau godi pe bai swyddogion yn gorfodi'r cynllun, ond mae angen cefnogaeth gan aelodau'r BGC.
- Cytunodd y bwrdd y gallai'r sefyllfa ariannol orfodi'r bwrdd i wneud i'r cynllun weithio'n well; o ran y cynllun, rydym wedi mynd i'r afael â gofidion ariannol; gyda'n gilydd, pa effaith gallwn ei chael tuag at newid cadarnhaol.

***Penderfynwyd –***

***(i) Bod y BGC yn ystyried a nodi'r adborth o'r ymgynghoriad, yn ogystal â chynnwys yr adroddiad drafft a'r asesiad o effaith ar les.***
***(ii) Yn dilyn y drafodaeth a'r materion a godwyd, bod y BGC yn cymeradwyo'r cynllun lles drafft, i'w gadarnhau rhwng sefydliadau unigol rhwng nawr a mis Mawrth 2023.***
***(iii) Bod y BGC yn cytuno i'r cynllun drafft fod ar gael ar wefan y BGC ar gyfer 'gwiriad synnwyr' terfynol ac yn gwahodd budd-ddeiliad i gysylltu os ydynt yn dymuno cymryd rhan neu roi adborth ar unrhyw agwedd ar y Cynllun.***

**5 ADOLYGU COFRESTR RISG Y BGC**

Cyflwynodd Amanda Jones – yr adroddiad hwn yn gofyn i'r BGC adolygu cofrestr risg BGC Conwy a Sir Ddinbych a'r risgiau mae'r BGC yn eu hwynebu.

Ychwanegwyd bod y nifer o staff oedd ar gael yn peri risg.

Caiff Cofrestr Risg y BGC ei datblygu gan y BGC a'r Bwrdd sydd yn berchen arni. Mae'n cael ei hadolygu'n ffurfiol unwaith y flwyddyn, fel yr amlinellir yn y Cylch Gorchwyl. Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf ym mis Rhagfyr 2020. Yn ystod yr adolygiad diweddaraf hwn, mae yna nifer o ddiweddariadau bach wedi bod; dyma grynodeb:

- Cynnwys colofn ychwanegol i adnabod camau lliniaru yn y dyfodol i annog meddwl ac ataliad hirdymor.
- BGC 2: Y risg nad yw sefydliadau partner yn ymroddedig i'r bwrdd. Cynnwys tri cham lliniaru ychwanegol:
- Mae aelodau BGC wedi cytuno i drefnu cyfarfodydd anffurfiol i drafod
- Rhaglenni sydd ar ddod, meithrin perthnasoedd a rhwydweithio.
- Sefydlwyd Cydbwyllgor Craffu i werthuso effeithlonrwydd y BGC.
- Roedd cynrychiolwyr o restr oedd wedi'u gwahodd gan y BGC wedi eu cyfethol ar y Cydbwyllgor Craffu i gynorthwyo i werthuso effeithlonrwydd y BGC.

BGC 3: Y risg bod y BGC yn methu sicrhau'r effaith mwyaf posibl y gall ei gyflawni drwy ddull cydweithredol. Cynnwys tri cham lliniaru ychwanegol:

- Cefnogaeth gan y rhwydwaith cydgynhyrchu i sicrhau ein bod yn cydweithio'n llwyddiannus.
- Sefydlwyd Cydbwyllgor Craffu i werthuso effeithlonrwydd y BGC.
- Roedd cynrychiolwyr o restr oedd wedi'u gwahodd gan y BGC wedi eu cyfethol ar y Cydbwyllgor Craffu i gynorthwyo i werthuso effeithlonrwydd y BGC.

Un risg newydd wedi'i nodi. BGC 6: Y risg bod problemau recriwtio a chadw, sy'n arwain at golli arbenigedd a chapasiti, yn gwaethygu gan arwain at wasanaethau gwael neu annigonol. Nid oes unrhyw risgiau wedi'u tynnu.

Trafododd y Bwrdd y materion canlynol ymhellach –

- Roedd y bwrdd yn croesawu ychwanegu risg 6, ond awgrymwyd y gellid ehangu geiriad y risg er mwyn amlygu y gallai recriwtio a chadw effeithio ar y gwaith y gellid ei wneud.
- Nodwyd bod dull cyffredin yn denu pobl i weithio i awdurdodau lleol a chyrff rhanbarthol eraill.
- Dywedodd Swyddogion bod Cynllun Lles a Chofrestr Risg y BGC wedi cael eu hystyried wrth i Sir Ddinbych lunio'i Gynllun Lles newydd; byddai'n fanteisiol i gyrff partneriaeth eraill gyfeirio at gynllun llesiant a chofrestr risg y BGC.

***PENDERFYNWYD –***

***(i) Bod y BGC yn ystyried y risgiau, y sgoriau a'r camau lliniaru yn y gofrestr risg.***

***(ii) Bod y BGC yn penderfynu nad oedd unrhyw risgiau newydd heblaw capasiti, a diwygio'r geiriad i'w gyfleu fel problem ar draws holl bartneriaid y BGC.***

## 6 DIWEDDARIAD GAN GYD-BWYLLGOR CRAFFU'R BGC

Arweiniodd y Cynghorydd John Roberts yr aelodau trwy gofnodion cyfarfod diwethaf y Cyd-bwyllgor Craffu.

Roedd y grŵp craffu'n cefnogi'r Cynllun Lles Drafft, trafodwyd cymorth cyfreithiol a chyflwynodd Iolo a'r swyddogion gwestiwn i'r tîm prawf fynd ar ei ôl. Roedd y cylch gwaith yn un heriol i'r bwrdd weithio ac ymgysylltu arno, gan fod cwmnïau preifat eisoes wedi ei gyflawni. Roedd y cadeirydd yn fodlon trafod y mater â'r Cynghorydd dan sylw.

***PENDERFYNWYD bod y BGC yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf gan Gyd-bwyllgor Craffu'r BGC.***

## 7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd copi o raglen gwaith i'r dyfodol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Trafododd y pwyllgor natur y sesiwn anffurfiol ac a fyddent yn cyfarfod yn bersonol neu dros y we, a chytunodd y pwyllgor i gynnal y cyfarfod yn bersonol.
- Cytunodd y pwyllgor y byddai trafodaethau pellach yn ystod y cyfarfod anffurfiol ym mis Ionawr ynglŷn â sut y gallai'r BGC ddarparu Cynllun Lles BGC Conwy a Sir Ddinbych.

***PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol.***

**DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 15:05pm**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH**

**RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

2023 / 2024

**Cadeirydd:**
Y Cynghorydd Jason McLellan, Cyngor Sir Ddinbych

**Is-gadeirydd:**
Y Cynghorydd Charlie McCoubrey, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

***Cydlynwyr:***
Emma Lea (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)
Amanda Jones a Hannah Edwards (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)
Iolo McGregor (Cyngor Sir Ddinbych)
Justin Hanson, Helen Millband a Iona Hughes (Cyfoeth Naturiol Cymru)
I'w gadarnhau (Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru)

**Pwyllgor sy'n Gyfrifol:**
Cyngor Sir Ddinbych

**Ymholiadau:**
01492 574059 / hannah.edwards@conwy.gov.uk

| Cyfarfodydd | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod** | **Pwnc** | **Pwrpas** | **Swyddog Cyfrifol** |
| **17 Gorffennaf 2023 (Cyfarfod anffurfiol)** | Risgiau corfforaethol | Rhannu a thrafod risgiau corfforaethol partneriaid mewn perthynas ag amcanion y cynllun lles. | Amanda Jones, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam | Hysbysu'r aelodau ynglŷn â'r Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam. | Sian Fearn-Thomas, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **17 Gorffennaf 2023** | Dull Systemau Cyfan | Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dulliau hyn a darparu cyd-destun cenedlaethol. | Tîm Iechyd Cyhoeddus |
| | Ymgysylltu â'r gymuned | Trafod dull ymgysylltu a datganiad cenhadaeth BGC | Mike Corcoran, |
| | Diweddariad Siarter Teithio Llesol | Cael diweddariad ar y Siarter Teithio Llesol a sut y gall y BGC gefnogi'r fenter ymhellach. | Louise Woodfine, Iechyd Cyhoeddus |
| | Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl. | Cymeradwyo cylch gorchwyl i ehangu aelodaeth y BGC yng nghyd-destun ei Amcan Lles newydd a gymeradwywyd. | Cadeirydd |
| **25 Medi 2023 (Cyfarfod ffurfiol)** | Risgiau corfforaethol | Cyflwyno canfyddiadau trafodaeth anffurfiol risgiau allweddol. | Amanda Jones, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Cyfraith Gofal Gwrthgyfartal | I hysbysu aelodau ynglŷn â'r gwaith sy'n digwydd ar draws y rhanbarth sy'n canolbwyntio ar anghydraddoldebau a phartneriaethau. | Helena Belmans, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | Fframwaith Perfformiad Cynllun Lles | Cyflwyno fframwaith perfformiad lefel uchel i gefnogi'r cynllun lles a thrafodaethau ynghylch cydraddoldeb ac amddifadedd. | Iolo McGregor, Cyngor Sir Ddinbych |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adeilad Cyfoeth Cymunedol a Chaffael Cynyddol – canfyddiadau ac argymhellion y peilot | Ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion yn dilyn y prosiect. | Anthony Mason, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Cynlluniau Lles BGC Gogledd Cymru | Cael gwell dealltwriaeth o waith BGC cyfagos a'r heriau a wynebant. | I'w gadarnhau (ond gwahodd cadeiryddion BGC GC eraill) |
| **Hydref 2023 (Cyfarfod anffurfiol)** | | | |
| **12 Rhagfyr 2023 (Cyfarfod ffurfiol)** | | | |
| **Ionawr 2023 (Cyfarfod anffurfiol)** | | | |
| **13 Mawrth 2024 (Cyfarfod ffurfiol)** | | | |



| **Eitemau Rheolaidd ar y Rhaglen** |
|---|
| Ymddiheuriadau am absenoldeb |
| Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf |
| Materion yn Codi |
| Tracio Camau Gweithredu'r Cyfarfod |
| Diweddariad gan aelodau partner / rhannu cyfleoedd |
| Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol |
| Unrhyw Fater Arall |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag